**Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, 'Taliadau Hwyr i Ffermwyr yng Nghymru'**

1. **Derbyniwyd yr Argymhelliad**
   Mae'r Cynulliad bob amser wedi ceisio talu ffermwyr cyn gynted ag y bo modd. O ran cynllun 2003 talwyd nifer sylweddol o geisiadau cymwys ar ddiwrnod cyntaf pob cyfnod talu. Dyma'r tro cyntaf inni lwyddo i berfformio cystal. Bydd Is-adran Rheoli'r Pwyllgor Amaethyddol Cyffredin yn cyhoeddi'r targedau talu ar gyfer cynllun 2004 yng nghylchgrawn Gwlad y Cynulliad Cenedlaethol, sy'n cael ei anfon at y ffermwyr yn uniongyrchol.  Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ein gwir berfformiad maes o law.

2. **Derbyniwyd yr Argymhelliad**
   Wrth ddod i unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â staff a'u lleoliad byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r peryglon ac a oes modd eu lleihau neu eu rheoli, a byddwn yn asesu effaith unrhyw benderfyniad ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu i gwsmeriaid.

3. **Derbyniwyd yr Argymhelliad**
   Mae'r rhaglen i reoli'r gwaith o weithredu diwygiadau'r PAC newydd ddechrau. Bydd y cynllun wrth gefn yn nodi'r hyn y gallwn ei wneud i helpu ffermwyr i ymdopi â'r canlyniadau ariannol yn y tymor byr os na chânt eu taliadau yn ystod y cyfnod talu.

4. **Derbyniwyd yr Argymhelliad yn Rhannol**
   Nid oes modd gwybod na chadarnhau sut y mae taliadau hwyr yn effeithio ar wahanol unigolion neu fusnesau.
   Mae holl adrannau amaethyddol y Deyrnas Unedig wedi cytuno â chyfradd yr iawndal sy'n cael ei dalu i ffermwyr ar hyn o bryd. Gan hynny, os penderfynir bod angen talu iawndal, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i dalu yn ôl y gyfradd gyffredin y cytunwyd arni.  O ystyried pryderon y pwyllgorau, fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adolygu lefel bresennol yr iawndal, mewn ymgynghoriad ag adrannau eraill y DU yng nghyfarfod nesaf penaethiaid IACS yn ddiweddarach eleni.

5. **Derbyniwyd yr Argymhelliad**
   Mae swyddog cyfathrebu cymwysedig yn cael ei benodi i weithio ar raglen diwygio'r PAC. Gwaith yr unigolyn hwn fydd helpu i wneud yn siŵr bod y negeseuon a roddwn yn glir, yn ddiamwys ac yn cael eu cyflwyno mewn ffordd amserol er mwyn medru rheoli disgwyliadau. Hefyd, rydym yn cydweithio'n agos â'r cyrff amaethyddol a rhanddeiliaid eraill er mwyn iddynt hwy ein helpu i drosglwyddo'r neges allweddol i ffermwyr.

6. **Derbyniwyd yr Argymhelliad**
   Gan amlaf bydd Llywodraeth y Cynulliad yn pennu cyllideb ar gyfer pob prosiect gwahanol. Yn ôl contract MERLIN â Siemens Alliance, a fydd yn berthnasol i holl brosiectau'r Cynulliad yn y dyfodol, bydd pob prosiect yn cael ei asesu'n unigol er mwyn penderfynu ar y math gorau o gontract ym mhob achos. Mae contract MERLIN yn rhoi cyfle i ddewis un o blith nifer o ddulliau

codi tâl i sicrhau gwerth am arian. Mae'r rhain yn cynnwys pris sefydlog, amser a defnyddiau, a rhannu risg ac elw.